BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Ystadegau am gyflyrau niwroddatblygiadol mewn oedolion oedran gweithio yng Ngogledd Cymru

Mawrth 2026

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cysylltwch â ni

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

Ebost: hcargc@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

Gwefan: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/ystadegau/

Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 5

Nodiadau ar y data 5

Mae nifer y bobl o oedran gweithio yn y boblogaeth yn lleihau'n gyffredinol, ond mae'r patrwm yn gymysg ar draws y rhanbarth 8

Mae gwell dealltwriaeth o awtistiaeth yn golygu bod cyfraddau cyffredinolrwydd wedi cynyddu 10

Efallai bod y cyfraddau'n dal i gael eu tanamcangyfrif, yn enwedig ar gyfer menywod a merched 10

Mae cyfraddau'n ymddangos yn uwch i blant nag i oedolion, yn rhannol oherwydd ymchwil a ddiweddarwyd yn fwy diweddar i blant 11

Amcangyfrifir bod tua 4,600 o bobl rhwng 18 a 65 oed yng Ngogledd Cymru yn awtistig 11

Mae'n bosibl bod gan tua 16,250 o bobl 18 a 65 oed yng Ngogledd Cymru anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) er bod hyn yn anoddach i'w amcangyfrif 12

Mae'n anoddach amcangyfrif cyfraddau cyffredinolrwydd ar gyfer anhwylderau dysgu penodol, fel dyslecsia neu anhwylder cydlyniad datblygiadol 14

Dyslecsia 14

Anhwylder cydlyniad datblygiadol 15

Dyscalcwlia 15

Mae dros 1,300 o bobl oedran gweithio yng Ngogledd Cymru sydd â chyflwr niwroddatblygiadol yn derbyn gofal a chymorth gan gynghorau lleol (ffigurau Mawrth 2024) 16

Mae nifer y Taliadau Annibyniaeth Personol ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol yn cynyddu 18

Gall nifer y bobl rhwng 18 a 65 oed sydd angen cymorth ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol gynyddu yn y dyfodol, hyd yn oed os nad yw'r boblogaeth o oedran gweithio yn tyfu llawer iawn 21

Atodiad: ystadegau niwroamrywiaeth ar gyfer ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol 23

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Cynhyrchwyd y darn hwn o waith gan Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2026. Bydd yn ffurfio rhan o'r rhaglen o ddiweddariadau i'r Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth a bydd copi ar gael ar wefan Bwrdd Partneriaeth. Ein nod yw adolygu'r bwletin hwn bob blwyddyn ac ychwanegu data ac ymchwil newydd pan fydd ar gael.

Ni ddylid darllen yr adroddiad hwn ar ei ben ei hun. Mae angen i ni wrando ar bobl niwroamrywiol am eu bywydau a'u profiadau a gweithio gyda'n gilydd i ddarparu gofal a chymorth sy'n gynhwysol ac yn niwrogadarnhaol.

Rydym hefyd yn cyhoeddi bwletin o'r new 'Ystadegau am gyflyrau niwroddatblygiadol mewn plant yng Ngogledd Cymru' ac wedi cyhoeddi pecyn gwybodaeth canolbwyntio ar niwroddatblygiad sy'n cynnwys yr hyn y mae plant a theuluoedd yn ei ddweud am eu profiadau a ffyrdd o wella cefnogaeth.

Rydym hefyd yn cyhoeddi chwiliadau llenyddiaeth a chrynodebau tystiolaeth eraill ar ein gwefan sy'n cynnwys pynciau sy'n ymwneud â chyflyrau niwroddatblygiadol.

Nodiadau ar y data

Nid oes cofrestr gyflawn o oedolion â chyflyrau niwroddatblygiadol ac felly dibynnwn ar amryw ffynonellau data procsi. Ceir gwahanol ddiffiniadau yn yr hyn y mae'r ffynonellau hynny'n ei gyfrif ac amrywiant mawr ym manylder y dadansoddiadau o'r boblogaeth â chyflyrau niwroddatblygiadol yng Ngogledd Cymru. Mae'n werth bwrw golwg ar bob ffynhonnell, serch hynny, i gael dealltwriaeth fwy trylwyr o'r sefyllfa.

Ni allwn gynnwys data'r GIG ynglŷn â diagnosisau, atgyfeiriadau a rhestrau aros ar hyn o bryd gan nad yw'r data hynny'n gyhoeddus eto. Os cyhoeddir y data byddwn yn eu hychwanegu i'r bwletin y gobeithiwn ei gyhoeddi o'r newydd yn flynyddol.

Oherwydd ein bod yn edrych ar ardaloedd chwe awdurdod unedol ac eisiau gwneud cymariaethau mor deg â phosibl, rydym yn defnyddio data sydd ar gael ar sail safonol ar gyfer pob maes. Mae hyn yn golygu ein bod wedi defnyddio ffynonellau data a gyhoeddwyd yn swyddogol yn bennaf. Efallai na fydd y rhain yn rhoi darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd mewn ardal, a gallant ddangos patrymau gwahanol i ddata gweinyddol a gedwir yn lleol. Efallai y bydd data gweinyddol ar

gael yn uniongyrchol gan gynghorau lleol neu ddarparwyr gwasanaethau os ydych am edrych ar ddarlun llawnach ar gyfer eich ardal.

Mae llawer o'r data yr ydym yn dibynnu arno yn dod o gofrestrau a ddefnyddir i helpu i redeg gwasanaethau, i gadw golwg ar bobl neu sefydliadau sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, neu i fesur perfformiad (a elwir weithiau'n ddata gweinyddol). Mae hwn yn werthfawr iawn ac weithiau'r unig ddata sydd gennym. Ond oherwydd nad yw wedi'i gynllunio ar gyfer dadansoddi anghenion nid yw bob amser yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd o ddiddordeb i ni, neu gall ddiffinio pethau'n wahanol. Byddwn yn dweud wrthych pryd y mae hyn yn wir.

Gall y ffordd y mae data'n cael ei gasglu, ei gofnodi a'i ddehongli fod yn wahanol hefyd ar gyfer pob sefydliad, neu hyd yn oed ar gyfer setiau data tebyg o fewn yr un sefydliad. Oherwydd hyn mae'n rhaid i ni hefyd fod yn ofalus ynghylch sut rydym yn ei ddadansoddi ac yn ei adrodd. Lle bydd hyn yn digwydd, byddwn yn sôn amdano yn y bwletin.

Lle bo'n bosibl, rydym wedi edrych ar y data diweddaraf a darparu cymhariaeth â'r hyn a oedd yn digwydd 10 mlynedd yn flaenorol, i helpu i fesur newidiadau dros amser. Nid yw'r cyfnodau amser a gaiff eu mesur gan wahanol ffynonellau data yn cyd-fynd. Mae gwahanol ffynonellau'n defnyddio gwahanol amrediad oedran i ddiffinio 'oedran gweithio' hefyd – lle bo'n bosibl, mae unrhyw nodweddion (er enghraifft, sylfaen boblogaeth wrth gyfrifo canran) wedi'u paru â'r ffynhonnell ddata.

Mae amcangyfrifon o niferoedd poblogaeth wedi'u hadolygu yn dilyn rhyddhau canlyniadau o Gyfrifiad 2021, felly mae'r hyn yr ydym yn ei ddeall am dueddiadau'r boblogaeth wedi newid ers i Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y bydd rhai rhifau, cyfraddau a chanrannau yn edrych yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd o'r blaen, ac ni ystyrir bod rhai ffynonellau data yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ddibynadwy bellach (yn benodol, amcanestyniadau a rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol).

Mae'r cyfrifiadau yr ydym wedi'u defnyddio yn y bwletin hwn yn defnyddio cyfraddau ar wahân ar gyfer dynion a merched. Cyfrifwyd y cyfansymiau drwy adio'r ffigurau ar gyfer y dynion a'r merched, ac nid drwy ddefnyddio'r cyfraddau mynychder 'cyfartalog' ar gyfer y boblogaeth.

Rhagdybir bod y cyfraddau mynychder a ddefnyddiwyd yn y bwletin hwn yn parhau'n sefydlog ar draws poblogaethau – lle, ar wahân i'r rhaniad rhwng dynion a merched, rydym yn defnyddio'r un cyfraddau mynychder ar gyfer yr holl grwpiau poblogaeth. Mewn gwirionedd, mae amrywiadau rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol-economaidd a gwahanol grwpiau ethnig a diwylliannol, ond nid oes gennym y data a fyddai'n ein galluogi ni i ddefnyddio mynychder ar lefel mwy gronynnog nag amcangyfrifon y consensws yr ydym wedi'i ddefnyddio.

Amharodd y pandemig Covid-19 ar ddilyniant data a'r gallu i gymharu rhai setiau data â'i gilydd – boed hynny oherwydd newid y drefn o gasglu data neu roi'r gorau iddi'n gyfan gwbl, neu oherwydd bod pobl yn ymddwyn yn wahanol ac felly heb gael eu cyfrif yn yr un ffordd neu yn yr un lleoedd. Rydym wedi nodi'r rhannau hynny o'r adroddiad hwn lle mae'r pandemig yn debygol o fod wedi effeithio ar y data.

Mae ffigurau ar gyfer dangosyddion niwroamrywiaeth ar gael ym mhrif gorff yr adroddiad ar lefel Gogledd Cymru ac awdurdod lleol. Mae rhai o'r dangosyddion ar gael ar lefel clwstwr gofal sylfaenol a chyflwynir y rhain yn yr atodiad.

Mae nifer y bobl o oedran gweithio yn y boblogaeth yn lleihau'n gyffredinol, ond mae'r patrwm yn gymysg ar draws y rhanbarth

Data sylfaenol am y boblogaeth yw'r sail ar gyfer ein dealltwriaeth o unrhyw newid yn y niferoedd, cyfraddau a chanrannau y byddwn yn bwrw golwg arnynt yng nghyd-destun y problemau gofal cymdeithasol a lles y mae gennym ddiddordeb neilltuol ynddynt.

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf (2024) yn nodi bod y bobl 18 i 65 oed yng Ngogledd Cymru yn oddeutu 405,850. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 48,250 o bobl 18 i 29 oed, 160,700 o bobl 30 i 44 oed a 196,950 o bobl 45 i 65 oed.

Fel arfer, gelwir y grŵp oedran hwn yn grŵp oedran gweithio. Mae'n dechrau ar oedran gadael ysgol ac yn gorffen ar oedran pensiwn y wladwriaeth. Ar gyfer y bwletin hwn rydym wedi defnyddio 18 fel y terfyn oedran isaf, gan mai dyma'r oedran y bydd plant rydym yn darparu gofal a chymorth iddynt yn symud i wasanaethau oedolion. Weithiau mae diffiniad oedran gweithio yn dechrau yn 16 oed felly mae'n well gwirio beth sy'n cael ei fesur.

Ffigur 1: nifer y bobl oedran 18 i 65 yn awdurdodau lleol Gogledd Cymru

Ardal	2024 nifer	2024 canran	2014 nifer	2014 canran	Newid 2014-24
Ynys Môn	38,300	55.4%	40,400	57.9%	-2,100
Gwynedd	72,500	60.0%	71,350	59.6%	1,150
Conwy	63,850	55.6%	65,800	56.9%	-1,900
Sir Ddinbych	55,450	56.5%	54,900	58.0%	600
Sir y Fflint	92,700	59.5%	93,400	60.9%	-700
Wrecsam	83,050	60.1%	83,250	61.2%	-200
Gogledd Cymru	405,850	58.2%	409,000	59.3%	-3,150

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm. Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhwng 2014 a 2024 gostyngodd nifer y bobl rhwng 18 a 65 oed yng Ngogledd Cymru gyfan tua -3,150, er bod rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd bach yn y niferoedd. Y twf mwyaf oedd yng Ngwynedd lle bydd poblogaeth y myfyrwyr sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Bangor yn cael effaith. Gwelodd holl ardaloedd awdurdod

unedol Gogledd Cymru ostyngiad yng nghyfran y bobl o oedran gweithio yn eu poblogaeth yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd.

Mae cyfran y bobl 18 i 65 oed yn y boblogaeth yn isel yng Ngogledd Cymru (58.2%) a'i holl ardaloedd awdurdod lleol o'i gymharu â chyfartaledd y DU (61.5%). Y gyfran isaf o bobl o oedran gweithio yn y boblogaeth yng Ngogledd Cymru yw yn Ynys Môn a'r uchaf yw yn Wrecsam.

Mae allfudo net oedolion ifanc yn effeithio ar gydbwysedd strwythur ein poblogaeth Mae'n hefyd wedi cael effaith ar nifer y plant hefyd, gan ei fod yn lleihau nifer y menyw o oed cael plant yn y boblogaeth.

Mae gwell dealltwriaeth o awtistiaeth yn golygu bod cyfraddau cyffredinolrwydd wedi cynyddu

Cynhaliodd Ganolfan Wybodaeth y GIG ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol astudiaeth yn 2021 a awgrymodd fod tua un o bob 90 o oedolion yn y Deyrnas Gyfunol yn y Deyrnas Unedig yn awtistig (1.1% neu 11 ymhob 1,000). Roedd y nifer wedi cynyddu ers i'r un tîm gynnal astudiaeth yn 2009 a awgrymodd fod un o bob 100 o oedolion yn awtistig (1.0% neu 10 ymhob 1,000).

Dywed yr ymchwilwyr bod y cynnydd mewn cyffredinrwydd yn debygol o gael ei yrru gan gynnydd cyson yn nifer y plant sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ers y 1960au. Maent yn credu bod y cynnydd hwn oherwydd diagnosis gwell, llai o stigma o'r cyflwr, ac ymwybyddiaeth gynyddol gan deuluoedd, ysgolion a gweithwyr iechyd proffesiynol

Efallai bod y cyfraddau'n dal i gael eu tanamcangyfrif, yn enwedig ar gyfer menywod a merched

Gan ystyried bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o niwroamrywiaeth yn dal i ddatblygu, mae'n debygol bod y cyfraddau hyn yn amcangyfrif rhy isel o'r cyfraddau go iawn ac y bydd gwaith ymchwil yn y dyfodol yn canfod bod cyffredinrwydd wedi cynyddu eto. Mae cyfraddau sy'n deillio o astudiaeth 2012 yn defnyddio data o'r 2000au felly maent bellach yn hen ffasiwn o bell ffordd.

Mae'r ymchwil yn awgrymu diffyg o safbwynt rhoi diagnosis o awtistiaeth i enethod a merched ac felly mae'r ffigurau ar gyfer benywod yn debygol o fyd yn rhy isel hefyd. Credir bod y diffyg diagnosis yn deillio o gyfuniad o'r ffordd y mae'r cyflwr yn mynegi ei hun ymysg genethod a merched, y ffordd y gallant addasu'n gymdeithasol neu guddio'u symptomau'n well na bechgyn a dynion, ac yn rhannol oherwydd hen ganfyddiad mai cyflwr 'gwrywaidd' yw awtistiaeth yn bennaf.

Yn yr astudiaeth yn 2012 roedd cyffredinrwydd awtistiaeth yn 2.0% ymysg gwrywod a 0.3% ymysg benywod.

Mae cyfraddau'n ymddangos yn uwch i blant nag i oedolion, yn rhannol oherwydd ymchwil a ddiweddarwyd yn fwy diweddar i blant

Mae cyfraddau amcangyfrifedig mewn plant yn uwch, yn rhannol oherwydd bod mwy o sylw wedi'i roi i gyflyrau niwroddatblygiadol mewn lleoliadau addysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gwaith ar ymyriadau cynnar hefyd yn golygu bod ymwybyddiaeth ac asesiad i blant ar gyfradd uwch. Nid yw'r gyfradd uwch hon i blant o reidrwydd yn golygu bod nifer yr achosion yn cynyddu ymhlith grwpiau oedran iau. Roedd pobl sydd bellach yn oedolion yn llai tebygol o fod wedi cael diagnosis o awtistiaeth yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau a ddefnyddir ar gyfer rhagweld nifer yr achosion o awtistiaeth mewn plant hefyd yn llawer mwy diweddar na'r cyfraddau diweddaraf sydd ar gael i oedolion (o astudiaeth yn 2021 i blant o'i gymharu â 2012 i oedolion).

Cynhaliodd Prifysgolion Caergrawnt a Newcastle astudiaeth yn 2021 a awgrymodd fod tua un o bob 57 o blant yn y Deyrnas Unedig yn awtistig (1.76% neu 17.6 ymhob 1,000. Roedd cyffredinrwydd awtistiaeth yn 2.8% ymysg bechgyn a 0.65% ymysg genethod.

Amcangyfrifir bod tua 4,600 o bobl rhwng 18 a 65 oed yng Ngogledd Cymru yn awtistig

Ar sail y cyfraddau cyffredinrwydd diweddaraf, amcangyfrifir fod yno tua 4,610 o bobl o oedran gweithio yng Ngogledd Cymru â chyflyrau sbectrwm awtistiaeth yn 2024. Roedd hynny’n cynnwys tua 3,990 o gwrywod a 620 o fenywod. Mae’r niferoedd yn debygol o fod wedi gostwng ychydig ar y cyfan yn y deng mlynedd ers 2014, yn unol â’r gostyngiad yn y boblogaeth 18 i 65 oed yn yr un cyfnod. Cymhwyswyd y cyfraddau cyffredinrwydd yn unffurf ar gyfer pob ardal a chyfnod o amser, heb ystyried unrhyw amrywiant lleol neu ragamcan o newid mewn cyfraddau cyffredinrwydd dros amser.

Ffigur 2: amcangyfrif o nifer y bobl 0 i 17 oed â chyflyrau sbectrwm awtistiaeth yng Ngogledd Cymru

Ardal	2024 gwrywod	2024 benywod	2024 person	2014 person	Newid 2014-24
Ynys Môn	380	60	430	460	-30
Gwynedd	710	110	820	820	0
Conwy	620	100	720	750	-30
Sir Ddinbych	540	90	620	620	0
Sir y Fflint	910	140	1,050	1,070	-20
Wrecsam	840	120	960	960	10
Gogledd Cymru	3,990	620	4,610	4,680	-60

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Cymhwyswyd y cyfraddau cyffredinrwydd i'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn wahaniaethol ar gyfer gwrywod (2.0%) a benywod (0.3%) ymhob blwyddyn.

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Brugha, T et al. Estimating the Prevalence of Autism Spectrum Conditions in Adults – Extending the 2007 Adult Psychiatric Morbidity Survey, The NHS Information Centre for Health and Social Care, Ionawr 2012

Mae astudiaethau sy'n edrych ar awtistiaeth mewn plant hefyd wedi dangos amrywiant mewn cyfraddau cyffredinrwydd rhwng gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol a gwahanol grwpiau ethnig a diwylliannol (Roman-Urrestarazu et al (2021) 'Association of Race/Ethnicity and Social Disadvantage With Autism Prevalence in 7 Million School Children in England'. JAMA Pediatrics). Canfuwyd y cyfraddau cyffredinrwydd uchaf ymysg disgyblion Du (2.11%) a'r rhai isaf ymysg disgyblion Roma/Teithwyr Gwyddelig (0.85%). Nid ydym, fodd bynnag, yn meddu ar y data yng Ngogledd Cymru a fyddai'n ein galluogi i gymhwyso cyfraddau cyffredinrwydd yn fwy manwl na'r amcangyfrifon cyffredin rydym wedi'u defnyddio yn ffigur 2.

Mae'n bosibl bod gan tua 16,250 o bobl 18 a 65 oed yng Ngogledd Cymru anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) er bod hyn yn anoddach i'w amcangyfrif

Mae'n anos amcangyfrif y cyfraddau cyffredinrwydd ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) gan nad oes cymaint o ymchwil wedi'i wneud i'r cyflwr.

Yn y DU, amcangyfrifir bod cyffredinrwydd o ADHD mewn oedolion rhwng 3% a 4%, gyda chymhareb gwrywod a benywod o tua 3:1.Amcangyfrifir bod cyffredinrwydd ADHD ymysg plant yn fyd-eang tua 5%, ac mae astudiaethau o boblogaethau yn yr Unol Daleithiau (lle mae'r cyfraddau diagnosis a thriniaeth yn dueddol o fod uchaf) yn amcangyfrif bod y gyfradd rhwng 8% a 10%.

Ffigur 3: amcangyfrif o nifer y bobl 18 i 65 oed ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) yng Ngogledd Cymru, 2024

Ardal	2024 gwrywod	2024 benywod	2024 person	2014 person	Newid 2014-24
Ynys Môn	1,150	380	1,530	1,620	-80
Gwynedd	2,180	730	2,900	2,850	50
Conwy	1,920	640	2,550	2,630	-80
Sir Ddinbych	1,660	550	2,220	2,200	20
Sir y Fflint	2,780	930	3,710	3,740	-30
Wrecsam	2,490	830	3,320	3,330	-10
Gogledd Cymru	12,180	4,060	16,230	16,360	-130

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; BMJ Best Practice (2023) Attention deficit hyperactivity disorder in adults, BMJ Publishing Group.

Rydym wedi defnyddio pen uchaf amcangyfrif y DU (4%) i gyfrifo'r nifer posibl ar gyfer Gogledd Cymru yn ffigur 3, oherwydd mae'r rhan fwyaf o ymchwil yn awgrymu bod y cyfraddau cyffredinolrwydd yn danamcangyfrif, a bod y cyfraddau o bosibl yn codi.

Mae cyfradd cyffredinolrwydd o 4% yn awgrymu bod gan tua 16,250 o bobl rhwng 18 a 65 oed ADHD yn 2024 yng Ngogledd Cymru.

Mae tri o is-deipiau o ADHD:

- Yr is-deip diffyg canolbwyntio yw rhwng 20% a 30% o'r holl achosion.
- Yr is-deip gorfywiog-mympwyol yw tua 15% o'r achosion.
- Yr is-deip cyfun yw rhwng 50% a 75% o'r achosion.

Mae diagnosis o ADHD yn fwy cyffredin ymysg bechgyn na genethod mewn plant. Amcangyfrifir bod y gymhareb cyffredinrwydd yn 2–5:1 ac mewn poblogaethau clinigol mae'r gymhareb mor uchel â 10:1. Gallai'r gwahaniaeth ddeillio o'r ffaith bod

bechgyn yn amlach yn dangos ymddygiad sy'n tarfu ar eraill a bod genethod yn fwy tebygol o fod â'r is-deip diffyg canolbwyntio ac yn llai tebygol o fod ag anhwylder herio gwrthryfelgar ac anhwylder ymddygiad. (BMJ Best Practice (2022) Attention deficit hyperactivity disorder in children, BMJ Publishing Group.)

Gallai lefelau tlodi hefyd effeithio ar ddiagnosis ADHD mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r data yng nghronfa ddata gofal sylfaenol y Deyrnas Gyfunol yn dangos bod cyffredinrwydd diagnosis ADHD ddwywaith yn uwch yn yr ardaloedd hynny yn y cwintel mwyaf difreintiedig o gymharu â'r cwintel lleiaf difreintiedig.

Sylwer: gall plant fod wedi cael eu cyfrif o fewn mwy nag un categori ar gyfer y set ddata hon felly ni ddylid ychwanegu'r canlyniadau o'r tablau yn ffigurau 2 a 3 i gael cyfanswm.

Mae'n anoddach amcangyfrif cyfraddau cyffredinolrwydd ar gyfer anhwylderau dysgu penodol, fel dyslecsia neu anhwylder cydlyniad datblygiadol

Bu llawer iawn yn llai o ymchwil i gyflyrau niwroddatblygiadol eraill fel dyslecsia, anhwylder cydlyniad datblygiadol (a elwir yn hefyd DCD neu dyspracsia), a dyscalcwlia, ac felly nid oes gennym gystal dealltwriaeth o'r rheiny. Nid oes unrhyw gonsensws ynghylch cyfraddau cyffredinrwydd na diffiniadau o ddifrifoldeb ac felly ni allwn wneud amcangyfrif pendant o nifer y pobl â'r cyflyrau hyn.

Weithiau gelwir y cyflyrau hyn yn anhwylderau dysgu penodol. Wrth gael diagnosis, bydd arbenigwyr yn gwirio nad yw anawsterau dysgu oherwydd cyflyrau eraill, fel anabledd deallusol, problemau golwg neu glyw, cyflwr niwrolegol (er enghraifft strôc), cyflyrau anffafriol fel anfantais economaidd neu amgylcheddol, diffyg cyfarwyddyd, neu anawsterau siarad neu ddeall yr iaith.

Dyslecsia

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn amcangyfrif bod 10% o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol â dyslecsia, gan gynnwys 4% o'r boblogaeth sydd â dyslecsia difrifol. Mae ffynonellau eraill yn awgrymu bod y gyfradd 'rhwng 3% a 5%', '1 o bob 5' neu '20%' wedi'i dalgrynnu. Mae'n anodd, fodd bynnag, dod o hyd i'r ffynonellau gwreiddiol ar gyfer yr ystadegau hyn.

Mwy o wybodaeth: https://www.bdadyslexia.org.uk/ (Saesneg yn unig)

Anhwylder cydlyniad datblygiadol

Mae'r Sefydliad Dyspracsia'n amcangyfrif bod dyspracsia yn effeithio ar tua 5% o blant oedran ysgol, sy'n cynnwys tua 2% o blant â dyspracsia mwy difrifol. Yn y rhan helaeth o achosion, mae'r problemau'n parhau nes bod y plant yn eu harddegau ac yn tyfu'n oedolion, gydag amcangyfrifon yn yr ystod o 3% i 5% o oedolion yn cael eu heffeithio. Mae rhai pobl yn cael eu geni gyda'r cyflwr, i eraill gall fod yn sgil-effaith i ddifrod i'r ymennydd trwy strôc, anaf i'r pen neu gyflwr niwrolegol arall.

Mae Sefydliad Dyspracsia hefyd yn dweud bod gwrywod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan dyspracsia na menywod, ond mae menywod yn aml yn hŷn pan fydd eu hanawsterau'n cael eu nodi.

Mwy o wybodaeth: https://dyspraxiafoundation.co.uk/ (Saesneg yn unig)

Dyscalcwlia

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn amcangyfrif bod 6% o bobl â dyscalcwlia. Mae'n amcangyfrif hefyd bod 25% o bobl ag anawsterau dysgu mathemategol sy'n gallu deillio naill ai o gyflyrau niwroamrywiol fel dyslecsia neu ffactorau allanol fel profiad dysgu trawmatig yng nghyd-destun mathemateg neu absenoldeb o'r ysgol. Mae 60% o bobl â dyslecsia'n cael trafferth â mathemateg.

Mwy o wybodaeth: https://www.bdadyslexia.org.uk/dyscalculia (Saesneg yn unig)

Mae dros 1,300 o bobl oedran gweithio yng Ngogledd Cymru sydd â chyflwr niwroddatblygiadol yn derbyn gofal a chymorth gan gynghorau lleol (ffigurau Mawrth 2024)

Mae awdurdodau lleol yn darparu data i Lywodraeth Cymru am y pobl y maent mewn cysylltiad â nhw ac yn darparu cymorth iddynt, fel rhan o'i chasgliad data ar gyfer y Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ffigur 4: oedolion 18 i 64 oed â chyflwr niwroddatblygiadol sy'n derbyn gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru, 31 Mawrth 2024

Ardal	Pobl â chyflwr niwroddatblygiadol	Cyfradd fesul 1,000 - yr holl bobl sy'n derbyn gofal neu gymorth	Cyfradd fesul 1,000 - cyfanswm y boblogaeth
Ynys Môn	230	522.7	6.2
Gwynedd	335	531.7	4.7
Conwy	-	-	-
Sir Ddinbych	95	226.2	1.8
Sir y Fflint	410	656.0	4.5
Wrecsam	230	451.0	2.8
Gogledd Cymru	1,300	416.7	3.3

Mae bylchau yn y data ar gyfer Conwy felly mae cyfansymiau Gogledd Cymru yn dangyfrif. Mae'r cyfraddau ar gyfer pobl rhwng 18 a 64 oed.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, Llywodraeth Cymru (StatsCymru)

Dim ond o'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024 y casglwyd a chyhoeddwyd y data hwn yn ei ffurf bresennol, felly nid oes gennym ddigon o ddata i fesur tueddiadau'n iawn. Fe'i dynodir yn swyddogol fel set ddata ystadegau arbrofol. Dyma'r fersiwn gyntaf un o'r datganiad data, felly mae anomaleddau casglu data yn cael eu cywiro ac mae diffiniadau'n dal i gael eu haddasu. Mae yna hefyd rai bylchau yn y data ar lefel leol wrth i'r systemau cofnodi ac adrodd gael eu datblygu. Oherwydd hyn, dylid dehongli ac adrodd y data yn ofalus.

Felly, rydym wedi cynnwys y ffigurau hyn ond nid ydym wedi darparu unrhyw ddadansoddiad o'r data. Dyma'r data ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf a chafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2025. Mae rhai bylchau yn y data felly nid yw

cyfansymiau Gogledd Cymru yn gyflawn. Mae'r set ddata lawn a gyhoeddwyd ar gael ar blatfform data StatsCymru.

Mae nifer y Taliadau Annibyniaeth Personol ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol yn cynyddu

Gall data ynglŷn â'r budd-daliadau Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) hefyd roi syniad inni o nifer y bobl â chyflwr niwroddatblygiadol o fewn ein poblogaeth.

Mae ystadegau ar hawlwyr Taliadau Annibyniaeth Personol yn dangos cynnydd yn y niferoedd o hawlwyr ymhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn y pum mlynedd diwethaf. Mae hynny er gwaethaf gostyngiad yn y nifer o oedolion oedran gweithio yn y boblogaeth yn yr un cyfnod. Mae niferoedd y prif gyflyrau anablu sy'n ymwneud fwyaf ag anhwylderau niwroddatblygiadol wedi mwy na dyblu o gyfanswm o tua 2,360 o hawlwyr yn 2020 i 5,010 o hawlwyr erbyn 2025.

Ffigur 5: prif gyflwr anabledd pobl 16 i 65 yng Ngogledd Cymru sy'n hawlio Taliad Annibyniaeth Bersonol – niferoedd cymharol ar gyfer 2020 a 2025



Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Achosion Taliad Annibyniaeth Bersonol mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Gall fod gan hawlwyr fwy nag un cyflwr anablu, ond dim ond y cyflwr sy'n brif reswm dros ddyfarnu Taliad Annibyniaeth Personol sy'n cael ei gofnodi yn y data. Mae'r categorïau anhwylderau sbectrwm awtistiaeth, anhwylder hypercinetig (sy'n cynnwys ADHD) ac anhwylderau dysgu penodol (gan gynnwys dyslecsia ag

anhwylder cydlyniad datblygiadol) yn dangos i ni nifer y bobl y mae eu prif gyflyrau anablu yn gysylltiedig â chyflyrau niwroddatblygiadol. Mae'n debygol y bydd llawer mwy o bobl â chyflyrau niwroddatblygiadol sy'n hawlio am brif gyflwr anablu gwahanol.

Ffigurau 6a a 6b: prif gyflwr anabledd pobl 16 i 65 yng Ngogledd Cymru sy'n hawlio Taliad Annibyniaeth Bersonol, Tachwedd 2025

Ardal	Anhwylderau sbectrwm awtistiaeth nifer	Anhwylder hypercinetig nifer	Anhwylderau dysgu penodol nifer	Cyfanswm nifer	Yr holl hawlwyr
Ynys Môn	250	70	50	370	4,210
Gwynedd	350	110	90	550	6,230
Conwy	580	190	60	830	7,530
Sir Ddinbych	660	290	50	1,000	7,690
Sir y Fflint	600	400	70	1,070	9,690
Wrecsam	580	500	110	1,190	9,760
Gogledd Cymru	3,020	1,540	450	5,010	45,100

Ardal	Anhwylderau sbectrwm awtistiaeth canran	Anhwylder hypercinetig canran	Anhwylderau dysgu penodol canran	Cyfanswm canran	Yr holl hawlwyr
Ynys Môn	6.0%	1.5%	1.3%	8.8%	4,210
Gwynedd	5.7%	1.7%	1.5%	8.9%	6,230
Conwy	7.7%	2.5%	0.9%	11.1%	7,530
Sir Ddinbych	8.5%	3.8%	0.7%	13.0%	7,690
Sir y Fflint	6.2%	4.1%	0.7%	11.0%	9,690
Wrecsam	5.9%	5.1%	1.1%	12.1%	9,760
Gogledd Cymru	6.7%	3.4%	1.0%	11.1%	45,100

Mae’r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw’n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran o'r holl bobl 16 i 65 oed sy'n hawlio budd-daliadau Taliad Annibyniaeth Bersonol.

Ffynhonnell: Achosion Taliad Annibyniaeth Bersonol mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ym mis Tachwedd 2025 roedd gan tua 11% o hawlwyr Taliad Annibyniaeth Bersonol gyflwr niwroddatblygiadol fel eu prif gyflwr anablu. Roedd y gyfradd uchaf

yn Sir Ddinbych ac isaf yn Ynys Môn. Roedd cyfanswm y 5,010 o hawlwyr tua 1.2% o'r boblogaeth 16 i 65 oed yng Ngogledd Cymru.

Efallai bod y twf arwyddocaol yn y categorïau hwn yn deillio o nifer o ffactorau yn hytrach na bod y cyflyrau hyn wedi dod yn fwy cyffredin – cynnydd mewn diagnosisau oherwydd gwell ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr meddygol a staff gofal, er enghraifft, mwy o bobl â'r cyflyrau hyn yn byw yn y gymuned yn hytrach na sefydliadau meddygol neu ofal, neu fwy o deuluoedd a gofalwyr yn ceisio cymorth ar gyfer pobl â'r cyflyrau dan sylw. Efallai y bydd angen mwy o waith i ddeall y newidiadau hyn.

Cesglir y data hyn ar gyfer yr holl blant rhwng 16 a 65 oed sy'n hawlio'r budd-daliadau Taliad Annibyniaeth Bersonol, ac felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â'r data ar wahanol grwpiau oedran yn yr adran flaenorol. Mae'n fuddiol, fodd bynnag, o safbwynt cael dealltwriaeth ehangach o'r data sydd gennym ynglŷn â niwroamrywiaeth yng Ngogledd Cymru.

Fel arfer, byddem yn edrych ar duedd deng mlynedd ar gyfer y math hwn o ddata, ond oherwydd y rhaglen i drosglwyddo hawlwyr oedran gweithio i PIP o fudd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl, nid ydym yn gallu gwneud cymariaethau cadarn â'r data o gyfnodau cynharach.

Gall nifer y bobl rhwng 18 a 65 oed sydd angen cymorth ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol gynyddu yn y dyfodol, hyd yn oed os nad yw'r boblogaeth o oedran gweithio yn tyfu llawer iawn

Mae'n debygol mai dim ond ychydig bach y bydd nifer y bobl o oedran gweithio ym mhoblogaeth Gogledd Cymru yn tyfu yn ystod y ddau ddegawd nesaf. Mae hyn yn golygu y rhagwelir hefyd mai dim ond ychydig bach y bydd nifer y bobl â chyflyrau niwroddatblygiadol yn tyfu.

Nid yw hynny, fodd bynnag, yn golygu y bydd nifer y plant sydd angen cymorth ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol yn gostwng yn yr un cyfnod. Mae'r tueddiadau diweddaraf yn awgrymu y gallai nifer y plant sy'n cael diagnosis ac yn ceisio cymorth ddal i godi yn y tymor byr a'r tymor canolig oherwydd gwell ymwybyddiaeth a pharodrwydd i ofyn am gymorth, ond mae arnom angen magu gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi achosi'r cynnydd yn y degawd diwethaf cyn medru darogan unrhyw dueddiadau yn y tymor hir. Efallai hefyd y caiff cyfraddau cyffredinrwydd cydnabyddedig – yn enwedig ar gyfer awtistiaeth ac ADHD – eu diwygio a'u cynyddu yn y dyfodol wrth i bobl fagu gwell dealltwriaeth o'r cyflyrau hyn.

Ffigur 7: amcangyfrif o nifer y bobl 18 i 65 oed a amcanestynnir y bydd ganddynt cyflyrau sbectrwm awtistiaeth yng Ngogledd Cymru, 2034 a 2044

Ardal	Amcangyfrif 2024	Amcanestyniad 2034	Amcanestyniad 2044
Ynys Môn	430	430	440
Gwynedd	820	850	880
Conwy	720	710	730
Sir Ddinbych	620	630	660
Sir y Fflint	1,050	1,060	1,080
Wrecsam	960	940	950
Gogledd Cymru	4,610	4,630	4,720

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru; amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2022 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Mae defnyddio amcangyfrifon y consensws i'r amcanestyniad poblogaeth diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru rhagweld erbyn 2044 (newid

ugain mlynedd) y gallai fod 4,720 o oedolion o oedran gweithio ag awtistiaeth yng Ngogledd Cymru. Mae hwn yn gynnydd o tua 110 neu tua 2% o ffigurau 2024.

Ffigur 8: amcangyfrif o nifer y bobl 18 i 65 oed a amcanestynnir y bydd ganddynt ADHD sbectrwm awtistiaeth yng Ngogledd Cymru, 2034 a 2044

Ardal	Amcangyfrif 2024	Amcanestyniad 2034	Amcanestyniad 2044
Ynys Môn	1,530	1,520	1,530
Gwynedd	2,900	2,980	3,040
Conwy	2,550	2,510	2,550
Sir Ddinbych	2,220	2,240	2,320
Sir y Fflint	3,710	3,730	3,800
Wrecsam	3,320	3,250	3,240
Gogledd Cymru	16,230	16,240	16,490

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru; amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2022 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Rhagwelir hefyd y bydd nifer yr oedolion o oedran gweithio sydd ag ADHD yn cynyddu ychydig – o tua 16,230 yn 2024 i tua 16,490 yn 2024, sy'n newid o 1.5%.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y prif amcanestyniad poblogaeth gan Lywodraeth Cymru, a ryddhawyd ym mis Tachwedd 2025. Mae amcanestyniadau amrywiol ar gael sy'n edrych ar wahanol gyfraddau twf ac yn gwneud gwahanol dybiaethau am dueddiadau poblogaeth yn y dyfodol.

Atodiad: ystadegau niwroamrywiaeth ar gyfer ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol

Ffigur 9: nifer y bobl oedran 18 i 65 mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru

Ardal	2024 nifer	2024 canran	2014 nifer	2014 canran	Newid 2014-24
Gogledd Cymru	405,850	58.2%	409,000	59.3%	-3,150
Ynys Môn a Gwynedd	110,800	58.3%	111,750	58.9%	-950
Conwy a Sir Ddinbych	119,350	56.0%	120,650	57.4%	-1,350
Sir y Fflint a Wrecsam	175,750	59.8%	176,600	61.0%	-850
Ynys Môn	36,450	55.2%	38,300	57.6%	-1,850
Arfon	40,750	63.6%	39,650	63.7%	1,150
Canol a De Sir Ddinbych	24,950	56.9%	25,600	59.4%	-650
Dwyrain Conwy	29,900	55.1%	30,750	55.9%	-850
Gorllewin Conwy	32,900	56.0%	33,850	57.6%	-1,000
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	34,400	61.2%	34,650	62.3%	-250
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	22,900	56.3%	23,050	55.4%	-150
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	21,800	59.9%	21,700	61.1%	100
De Meirionnydd	10,700	55.8%	10,750	56.0%	-100
De Sir y Fflint	32,900	57.9%	33,250	59.4%	-350
Gogledd Sir Ddinbych	32,850	56.3%	31,950	57.0%	900
De Wrecsam	28,900	58.5%	30,150	60.3%	-1,250
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	19,250	58.1%	20,150	60.7%	-900
Canol Wrecsam	37,250	62.2%	35,250	62.1%	2,050

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 10: amcangyfrif o nifer y bobl 18 i 65 oed â chyflyrau sbectrwm awtistiaeth mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru

Ardal	2024 gwrywod	2024 benywod	2024 person	2014 person	Newid 2014-24
Gogledd Cymru	3,990	620	4,610	4,680	-60
Ynys Môn a Gwynedd	1,090	170	1,260	1,280	-30
Conwy a Sir Ddinbych	1,160	180	1,340	1,370	-30
Sir y Fflint a Wrecsam	1,750	270	2,010	2020	-10
Ynys Môn	360	60	410	440	-30
Arfon	400	60	460	450	10
Canol a De Sir Ddinbych	250	40	280	300	-10
Dwyrain Conwy	290	50	340	350	-10
Gorllewin Conwy	320	50	370	380	-10
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	340	50	390	400	-10
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	230	30	260	270	-10
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	210	30	250	250	0
De Meirionnydd	110	20	120	120	0
De Sir y Fflint	320	50	370	380	-10
Gogledd Sir Ddinbych	310	50	370	360	10
De Wrecsam	280	40	330	350	-20
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	190	30	220	230	-10
Canol Wrecsam	390	50	440	410	40

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Cymhwyswyd y cyfraddau cyffredinrwydd i'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn wahaniaethol ar gyfer gwrywod (2.0%) a benywod (0.3%) ymhob blwyddyn.

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Brugha, T et al. Estimating the Prevalence of Autism Spectrum Conditions in Adults – Extending the 2007 Adult Psychiatric Morbidity Survey, The NHS Information Centre for Health and Social Care, Ionawr 2012

Ffigur 11: amcangyfrif o nifer y bobl 18 i 65 oed ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru

Ardal	2024 gwrywod	2024 benywod	2024 person	2014 person	Newid 2014-24
Gogledd Cymru	12,180	4,060	16,230	16,360	-130
Ynys Môn a Gwynedd	3,320	1,110	4,430	4,470	-40
Conwy a Sir Ddinbych	3,580	1,190	4,770	4,830	-50
Sir y Fflint a Wrecsam	5270	1760	7030	7060	-30
Ynys Môn	1,090	360	1,460	1,530	-70
Arfon	1,220	410	1,630	1,590	50
Canol a De Sir Ddinbych	750	250	1,000	1,020	-30
Dwyrain Conwy	900	300	1,200	1,230	-30
Gorllewin Conwy	990	330	1,320	1,350	-40
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	1,030	340	1,380	1,390	-10
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	690	230	920	920	-10
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	650	220	870	870	0
De Meirionnydd	320	110	430	430	0
De Sir y Fflint	990	330	1,320	1,330	-10
Gogledd Sir Ddinbych	990	330	1,310	1,280	40
De Wrecsam	870	290	1,160	1,210	-50
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	580	190	770	810	-40
Canol Wrecsam	1,120	370	1,490	1,410	80

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; BMJ Best Practice (2023) Attention deficit hyperactivity disorder in adults. BMJ Publishing Group.